



Cyfarfod Blynyddol 2021

Adroddiad y Trysorydd

(elusen rhif 1190243)

Mae'r adroddiad yma i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020-21.

Aelodaeth: 'Roedd gan y Clwb 275 aelod yn talu £20 yr un (£5500). Yn ogystal derbyniwyd £618 gan unigolion nad ydynt mwyach yn aelodau o'r Clwb – yn cynnwys 31 taliad o £15, 8 taliad llai na £15 a nifer o daliadau gan unigolion sy'n anhysbys.

Mae'r taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 yr aelod. Bydd hwn yn cynyddu yn ystod 2022; mae argymhellion y pwyllgor ar gynyddu'r tâl aelodaeth i'w cael isod.

Teithiau: Ni threfnwyd unrhyw daith breswyl yn ystod y flwyddyn. Cafodd dwy daith oedd wedi eu gohirio o 2019 eu canslo; cafwyd y blaendal yn ôl gan y darparwyr llety a rhoddwyd ad-daliad llawn i bob aelod oedd wedi archebu lle arnynt.

Cronfa Goffa Gareth Pierce: Derbyniwyd rhoddion o £846.26 er cof am Gareth Pierce, trwy garedigrwydd ei deulu yn enwebu'r Clwb ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru.

Gwariant arall: Costau rhedeg arferol y Clwb ydi'r costau gweinyddol a chostau'r wefan sy'n dod i gyfanswm o £608.94 ar gyfer 2020-21. Hefyd gwnaed cyfraniad o £20 y pen (sef £160) tuag at gwrs cymorth cyntaf i aelodau.

Balansau: Mae gan y Clwb £7603.41 yn y banc sy'n cynnwys cronfa goffa Gareth Pierce (£846.26) a chronfa gyffredinol o £6757.15. Mae'r gronfa gyffredinol £124.21 yn is nag oedd ar yr un adeg llynedd. Mae angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Tâl aelodaeth: Bydd y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn parhau i fod yn £20.25 y pen yn Ionawr 2022, sef yr adeg mae mwyafrif llethol yr aelodau yn talu eu tâl aelodaeth. Ond bydd yn cynyddu i £21 y pen ym mis Ebrill ac yna yn cynyddu ymhellach yn unol â chwyddiant yn Ionawr 2023.

Am y rheswm yma mae'r pwyllgor yn argymhell cynyddu'r tâl aelodaeth i £25 y pen o fis Ionawr 2023 ymlaen. Byddai cael penderfyniad ar hyn eleni yn caniatáu digon o amser i weithredu arno.

Dilys Phillips
24 Hydref 2021